Sul Galwadau 2025: Pregeth

Rholio'r map a chanfod eich galwad!

Dychmygwch fap o'r byd. Pa wlad a wnaethoch chi ei rhoi yn y canol? Beth yw cyfartaleddau pob cyfandir? Mae'n debyg eich bod chi wedi dychmygu rhywbeth fel map Mercator, a gafodd ei lunio i ddechrau ar gyfer llywio llongau ar y môr, ac sy'n dyddio o gyfnod mor bell yn ôl â 1569. Ond, ni waeth pa mor ddefnyddiol ydyw at y pwrpas hwnnw, nid y DU sydd yng nghanol y byd mewn gwirionedd! Ac mae'n aflunio cyfartaleddau gwahanol wledydd. Er enghraifft, a wyddoch chi fod Awstralia dair gwaith a hanner yn fwy na Greenland, ond mewn gwirionedd yn ymddangos yn llawer llai ar y map Mercator? Fersiwn arall o fap o'r byd yw'r Map o'r Byd ar dafluniad Gall-Peters. Mae hwn yn dangos y cyfartaleddau cywir, ond yn llai defnyddiol ar gyfer llywio.

Mae'r awdur Susan Maros, yn ei llyfr *Calling in Context*,[1] yn awgrymu bod gan bob un ohonom ni fapiau meddyliol ynglŷn â'r hyn yr ydym ni'n credu yw ystyr ein galwad ac, yn yr un ffordd y gwnaethoch chi roi'r DU ar ganol eich map mae'n debyg, nid ydych chi'n sylweddoli eich bod yn gwneud hynny! Mae Maros yn sôn hefyd am ein tuedd i fod â map meddyliol o'r stori 'nodweddiadol' am alwad yn y Beibl, sydd yn aml yn cynnwys pump o gamau: Duw sy'n galw, yr hwn sy'n rhoi galwadau, gydag unigolyn yn cael ei alw, sy'n cydnabod yr alwad honno wedyn, ac mae'r alwad honno'n cael ei chadarnhau.

Mewn ystyr, nid yw'r darlleniad heddiw ar Sul Galwadau o Lyfr yr Actau yn gwneud dim i herio'r drefn nodweddiadol o alw pobl. Ymhlith ysgolheigion Pawlaidd, fe geir dadlau ynglŷn â'r cwestiwn a yw Paul yn cael troëdigaeth neu alwad yma. Mae gan ysgolheigion Pawlaidd lawer i'w ddweud am hyn, ac mae diwinyddion Golwg Newydd yn mynegi mai cael ei alw a wnaeth Paul yn hytrach na'i droi – mae ef yn parhau i fod yn adherent y grefydd Iddewig, er enghraifft.

O ran bod yn stori am alwad, mae pob un o'r elfennau y mae Maros yn eu trafod yn bresennol: Duw sy'n galw ("Iesu wyf i"); Duw sy'n rhoi galwadau ac mae'n gwneud hynny drwy gyfrwng fflachiadau goleuni; Saul a gafodd ei alw ("Ond cod a dos i mewn i'r ddinas ac fe ddywedir wrthyt beth sydd raid iti ei wneud"); mae Saul yn cydnabod yr alwad honno, gan fynd i Ddamascus; wedyn, ar ôl tridiau, mae'r alwad yn cael ei chadarnhau wrth i rywbeth fel cel syrthio oddi ar lygaid Saul ac fe'i bedyddir ef. Mae'r cyfan yn ddestlus iawn, heb unrhyw lithriadau neu

wyriadau neu droeon trwstan. Mae'r cyfan yn digwydd mewn tridiau. Mae Saul yn mynd yn Paul ac yn rhoi ei fywyd yn gyfan i sefydlu'r Eglwys.

Fe all stori fel hon am alwad 'draddodiadol' gadarnhau'r map meddyliol sydd gennym ni sy'n rhoi'r argraff y *dylem* ni gael ein galw mewn ffordd nodweddiadol. Wrth gwrs mae Luc, awdur llyfr yr Actau, yn awyddus i bwysleisio bod y digwyddiad pan alwyd Saul gan Dduw yn bwysig iawn ac mae'n cael ei ailadrodd dair o weithiau yn Actau (Mae Paul yn adrodd y stori yn ddiweddarach ym mhennod 22:3-16 ac wedyn ym mhennod 26:4-23). Ond a ydych chi'n gallu cysylltu yn hawdd â stori heddiw? A ydych chi'n disgwyl y byddwch chi'n cael clywed sŵn mawr ac yn cael eich dallu gan fflach o oleuni wrth gerdded ar y stryd fawr, a Duw yn ymddangos i chi ac yn dweud wrthych chi am droi ac ymrwymo eich bywyd i Iesu? Nac ydych, mae'n debyg. Wel, peidiwch â phoeni. Gellid dadlau bod y stori hon yn ymddangos dair gwaith yn union am ei bod mor anarferol ac nid profiad normal mohono.

Meddai Susan Maros: "Yr hyn y mae pobl yn tueddu i'w dybio yw bod dibenion Duw yn rhywle 'fan draw' ac mewn perygl o fynd ar goll. Mae ein pryder ni o ran methu â gweld dibenion Duw yn awgrymu ein bod ni'n credu bod Duw yn fwriadol yn gwneud dirnad y dibenion hyn yn dasg anodd er mwyn ein profi ni… yn y cyd-destun hwn, rydym ni'n trin dirnadaeth fel arholiad: mae'n rhaid i ni ddewis yn gywir neu fethu'r prawf."[2] Mae hi'n hawdd i droëdigaeth Paul dynnu ein sylw ni a gwneud i ni aros am alwad arbennig gan Dduw yn y fordd hon – a dal i aros. Neu mae hi'n hawdd iawn meddwl y bydd Duw yn galw mewn lleoliad arbennig: mewn capel neu wasanaeth ffurfiol o addoliad. Neu ar encil. Neu y cawn ein galw i le arbennig. I'r rhan fwyaf o bobl, ni ddaw galwad Duw fel hyn. Yn wir, mae Duw ar waith yn ein plith ni, y chi a minnau, yma, nawr.

Felly… gadewch i ni rolio ein mapiau meddyliol. Ym mha le yr ydym ni'n *sylwi* ar Dduw yn ein gwaith ni?

A yw Duw yn siarad drwy bobl eraill? Dyna sy'n digwydd pan mae'r Samariaid a'r Ethiopiad yn canfod Duw yn y stori sy'n dod cyn galwad neu droëdigaeth Saul. Maen nhw'n sylwi ar neges Duw iddyn nhw drwy gyfrwng Philip.

Efallai y byddwch chi'n sylwi ar Dduw yn y byd o'ch cwmpas – yn hyfrydwch natur, yn arwyddion y gwanwyn, neu ym mywyd neu fwrlwm y ddinas.

Efallai mewn munud i feddwl, neu weddi, neu ddarlleniad o'r Ysgrythur, neu arogl coffi, neu gerddoriaeth neu ffilm neu lyfrau.

Y peth pwysicaf yw eich bod yn fwriadol yn cymryd amser i sylwi. I fod yn bresennol yn yr hyn y mae Duw yn ei ddweud wrthych chi.

Mae Duw *yn* dweud rhywbeth wrthych chi.

Disgrifiai menyw hyfryd mewn cryn dipyn o oedran ei bod hi'n ei gweld ei hun yn y capel fel hyn: "Wel," ebe hi, "dim ond cadw'r sedd yn gynnes wyf i." Nid smalio bod yn wylaidd yr oedd hi. Roedd hi wir yn credu'r peth.

Ac eto roedd hi yno: yn raslon, yn annog pobl ifanc, yn ymgorffori perthynas wirioneddol â Duw, yn batrwm o gydymdeimlad, a chyfiawnder distaw, cadarn. Roedd hi wedi bod yn brifathrawes ysgol gynradd am 20 mlynedd, yn arloesi ar y pryd pan oedd hi'n anarferol i fenywod â theuluoedd fod yn gweithio, heb sôn am weithio amser llawn mewn swydd gyfrifol. Roedd hi'n byw ei doniau ysbrydol ym mywyd yr Eglwys a'r tu allan ar bob cam ac ym mhob cyfnod o'i bywyd.

Mae'r gred hon nad ydym ni'n ddigonol ar gyfer ein gwaith yn cael ei galw yn gyfrediad yr ymhonnwr. A ydych chi'n gallu meddwl am eich bywyd chi eich hun ac amser y buoch chi dan gyfrediad yr ymhonnwr? Fe allem ni achub ar gyfle i drafod hyn gyda'r bobl sy'n eistedd wrth eich ymyl chi…

Ond meddai Duw, "Peidiwch â bod â chyfrediad yr ymhonnwr. Rholiwch y mapiau!"

Mae'r athrawon yn eich plith chi'n gwybod mai un o'r pethau y mae'r disgyblion yn hoffi eu gwneud yw llunio llawlyfr blynyddol wrth ymadael â'r ysgol. Y mae hwnnw'n gallu cynnwys tudalen yn aml o luniau o blant y dosbarth gyda'r capsiwn: "Yn fwyaf tebygol o…" ac fe allech chi lenwi'r bylchau! Mae categorïau ac enwebiadau yn aml yn cynnwys:

- fod yn Brif Weinidog
- fod yn filiwnydd erbyn 21 oed
- dringo Mynydd Everest

Yr hyn nad yw'n cael ei weld yn aml yw tudalen yn gofyn "Yn lleiaf tebygol o…" Serch hynny, mae honno'n gêm ddifyr i'w chwarae gyda'r Beibl: gêm y rhai "lleiaf tebygol o'u galw gan Dduw". Bydd yn dangos i chi fod Duw yn sicr yn gweld ochr ddoniol ar bethau, oherwydd mae Duw yn galw pobl annisgwyl trwy'r amser:

- Sara ac Abraham, rhieni yn eu nawdegau!
- Esther, merch, i herio'r brenin gan roi ei bwyd mewn perygl mawr a newid gorchymyn brenhinol, mewn cyfnod y byddai hynny bron yn annychmygadwy.
- Disgyblion, o bob rhan o'r gymdeithas, nid pobl fawr yn unig.
- Grŵp o fenywod cyffredin yn oerfel ac ansicrwydd y bore dolurus hwnnw, yn rhai cyntaf i dystiolaethu i'r Atgyfodiad, y weithred unigol fwyaf arwyddocaol erioed.

Rhoddir i bob un ohonom ni — 'waeth pa mor annhebygol – ddoniau unigryw a rhyfeddol i'w byw er mwyn i eraill adnabod cariad Duw.

Fe wyddom ni am Paul – ond fe geir y disgybl blin o Ddamascus hefyd, sef Ananias, nad yw'n fodlon cynorthwyo Paul. Nid yn afresymol felly, mae Ananias yn amau Paul yn fawr iawn. Ac eto efe, yn waelodol, yw'r un sy'n ordeinio Paul i'w waith o fynd â'r newyddion da i'r disgyblion. Beth tybed yw ei ddawn ef yn eich barn chi? Duw a ŵyr!

Yn ein darlleniad o'r Efengyl hefyd, caiff Pedr ei alw gan Iesu, "portha fy ŵyn", i arddangos cariad Duw i eraill, dair gwaith. Yn amlwg, mae hynny'n adlewyrchu Pedr yn gwadu adnabod Iesu dair gwaith cyn y croeshoelio. Unwaith eto, mewn cystadleuaeth i ddarganfod pwy sy'n "lleiaf tebygol o gael ei alw", fe fyddai Pedr yn dod yn agos i'r brig. Ond edrychwch chi ar natur y cyfarfyddiad.

Mae'r diwinydd Tom Wright yn mynegi: "Mae'r ymddiddan rhwng Iesu a Phedr yn Ioan 21 yn un o'r cyfarfyddiadau mwyaf teimladwy a gofnodwyd erioed. Mae yna gariad, cynhesrwydd teimlad dwfn sy'n tarddu o Iesu. Ond mae'r cariad hwn yn gryf, yn nerthol, yn newid bywydau, yn cyfeirio bywydau. Mae'r greadigaeth newydd wedi dechrau, a'r grym sy'n rhoi symbyliad iddo yw cariad."[3]

Felly… rholiwch y mapiau hynny!

Nid yw Duw yn eich galw chi na minnau dim ond ar gyfer cyfannu ffigyrau. Nid yw Duw fel capten tîm pel-droed yr ysgol yn dweud, "Nid oedd y sgoriwr gorau ar gael, felly fe fydd yn rhaid i ti wneud y tro i ni!" Nage. Mae'r diwinydd Joseph Bessler yn tynnu sylw at y ffaith fod "angen doniau, safbwyntiau a diwinyddiaethau lluosog arnom ni yn yr eglwys leol ac yn fwy eang ac mae angen eu hanrhydeddu er mwyn i'n ffydd bersonol a chyfun fod yn gyflawn".[4]

Mae hi'n ddiddorol nodi bod ymdeimlad o ymraniad posibl ymysg y disgyblion: gyda phlaid Pedr yn erbyn plaid y Disgybl Annwyl. Ond nid yw Iesu yn ymhél â hynny o gwbl: y Disgybl Annwyl myfyrgar sy'n adnabod Iesu yn gyntaf; Pedr, y dyn egnïon, sy'n neidio i'r môr i gasglu'r rhwydi llawn pysgod i gyflawni'r ddalfa fawr. Mae angen y ddau ohonyn nhw.

Fe wnaethom ni ddechrau drwy sôn am fapiau amrywiol. Mapiau a oedd yn ein hatgoffa ni am rai o'r pethau sy'n llwyr reddfol i ni, sy'n aflunio'r ffordd yr ydym ni'n ein gweld ein hunain:

- Rydym ni'n aml yn credu ei bod hi'n rhaid i ni ddisgwyl am ddatganiad eglur a chadarn fel cafodd Saul/Paul oddi wrth Dduw: yr alwad fel taran. Ac eto – ceisiwch sylwi ar Dduw wrth eich gwaith chi. Ymdeimlad ohono. Neu mewn unigolyn arall. Neu yn sŵn byd natur, neu yn sŵn y ddinas. Fe fydd Duw yn dweud rhywbeth wrthych chi.
- Rydym ni'n aml yn credu y bydd rhaid gadael popeth i ddilyn galwad Duw — ond mae Duw yn eich galw ar yr amser hwn ac yn y lle hwn.
- Rydym ni'n aml yn meddwl ein bod ni'n annigonol – nid wyf i'n ddigon da, neu'n rhy brysur, yn rhy ifanc, yn rhy hen, yn rhy ddifflach neu'n rhy… ond mae Duw yn galw pawb, ac nid oherwydd piti. Mae Duw yn caru'r doniau a grëir ynoch. Ac fe ŵyr Duw am angen mawr y byd.

Ac felly rholiwch y mapiau a chlywch alwad Duw, sydd bob amser ar waith yn eich bywyd chi ac yn y byd, yn eich galw chi ganfod ym mha le y mae eich gorfoledd chi yn cwrdd ag angen mwyaf y byd[5] er mwyn i gariad Duw a ddaeth yn hysbys yn Iesu, gael ei wneud yn hysbys ynoch a thrwoch chwithau.

Felly, ar Sul Galwadau eleni, fe fyddwn i'n gofyn i chi feddwl:

- A ydych chi'n dioddef o gyfrediad yr ymhonnwr?
- Pwy sy'n wahanol i chi yn eich eglwys chi? Pam mae angen eu rhoddion a'u galwadau nhw arnoch chi? Sut allech chi hwyluso eu galwadau nhw'n well yma nawr yn y fan hon?

Mae hi'n hawdd iawn honni nad yw Duw yn ein galw ni – neu efallai y bydd Duw yn ein galw rywbryd arall, ond nid yw ef yn ein galw ni nawr, yn sicr. Rydym ni wedi sôn am orffennol Paul yn barod. Nid oes neb ohonom ni'n rhy ddrwg, neu'n rhy brysur, neu'n rhy ifanc neu'n rhy hen neu'n rhy (llanwch y bwlch!) i gael ei alw. Mae galwad Duw i bob un ohonom ni, i'r "unigolyn hwn, ar yr amser hwn, yn y lle hwn",[6] fel mae'r awdur Gordon Smith yn ein hatgoffa ni.

Mae pawb ohonoch chi ar wahanol gyfnodau yn eich bywydau: ifanc, yn gweithio, wedi ymddeol; yn gyffrous, bodolon, wedi dadrithio; yn brysur iawn, yn mwynhau prysurdeb, gyda gormod o amser; mewn iechyd da neu waeledd; gyda digonedd o arian neu heb fod â digon. Rydych chi i gyd yn byw mewn gwahanol leoedd; yng nghefn gwlad, yn y dref, rhai yn rhywle yn y canol, gyda phleserau a heriau amrywiol. Ac eto fe gewch chi eich galw: pob un ohonoch chi ar y cam hwn yn eich bywyd yn y lleoliad y mae Duw wedi eich dodi chi ynddo. Felly, gadewch i ni gymryd amser i feddwl a thrafod y cwestiynau hyn:

- Beth yw'r angen yn eich lleoliad chi? A oes angen yn eich eglwys neu yn eich cymuned?
- Sut y gellir defnyddio eich doniau a'ch galwad chi yn y ffordd orau yn y cyfnod hwn yn eich bywyd, er mwyn y lle hwn?
- Ac ym mha le y mae'r doniau a roddodd Duw i chi yn cwrdd ag anghenion mwyaf eich cymuned chi?

Wrth i ni ddirnad y cwestiynau hyn, rydym ni'n rholio'r mapiau sy'n rhoi terfyn ar ein dealltwriaeth – ac yn wirioneddol fod yr hyn y cawsom ni ein llunio i'w fod yn annibendod, poen, llawenydd a gobaith y fan yr ydym ni'n byw ynddi. **Amen.**

Cyfeiriadau

1. Susan Maros, *Calling in Context: Social location and vocational formation* (2022) IVP: Illinois
2. Susan Maros, *Calling in Context*, t.183
3. Tom Wright, *Simply Jesus: Who He Was, What He Did, Why It Matters* (2011) SPCK: Llundain
4. Joseph Bessler, 'John 20:1-19: Theological Perspective' yn David Bartlett a Barbara Taylor Brown (gol.) *Feasting on the Word: Year C Volume 2* (2009), Gwasg Westminster John Knox: Louisville, Kentucky, t. 420-425
5. Cafodd y diffiniad hwn o alwad ei fathu yn wreiddiol gan y diwynydd Americanaidd Frederick Beuchner yn ei lyfr *Wishful Thinking: A Seeker's ABC* (1973) Bravo: Colorado
6. Gordon Smith, *Your Calling Here and Now: Making Sense of Vocation* (2022), IVP: Illinois, t.1

Daw pob dyfyniad o'r Beibl o'r *Beibl Cymraeg Newydd, Argraffiad Diwygiedig*.
Hawlfraint © 1988, 2004 Cymdeithas y Beibl.
Defnyddiwyd â chaniatâd. Cedwir pob hawl yn fyd-eang.

Os hoffech chi ofyn am yr adnodd hwn mewn fformat arall,
os gwelwch yn dda, i drafod eich anghenion, cysylltwch â ni yn
publishing@methodistchurch.org.uk

Cyhoeddwyd gan yr Eglwys Fethodistaidd ym Mhrydain Fawr. Rhif elusen gofrestredig 1132208
© Yr Ymddiriedolwyr at Ddibenion yr Eglwys Fethodistaidd 2025